ADRODDIADAU ARHOLWYR

LEFEL 2 GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: YMARFER A THEORI

HAF 2023

© WJEC CBAC Ltd.

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC: https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=cy

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol Blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

Uned	Tudalen
Uned 216	1

© WJEC CBAC Ltd.

GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: YMARFER A THEORI

Lefel 2

Haf 2023

UNED 216 – Deall Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

Sylwadau Cyffredinol

Roedd cynnwys y papur hwn yn cyflwyno amrywiaeth o fathau o gwestiynau yn ymdrin â chynnwys Uned 216 fel y nodir yn y fanyleb.

Rhoddwyd cynnig ar gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn rhai o'r cwestiynau a gyflwynwyd. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod hyn wedi bod yn anodd i rai dysgwyr mewn mannau.

Roedd ychwanegiadau neu newidiadau a wnaed i'r cynllun marcio yn ystod y gynhadledd wedi cyfrannu at farcio cadarnhaol, gan ganiatáu ar gyfer rhoi marciau ychwanegol gan ddefnyddio'r canllawiau i roi credyd am unrhyw ymateb arall.

Dim ond rhai dysgwyr wnaeth geisio ateb pob cwestiwn gan adael rhai cwestiynau yn wag. Roedd hyn yn ddangosydd o ddealltwriaeth cyfyngedig o rai meysydd o'r fanyleb.

Er bod dealltwriaeth gyffredinol o ferfau gorchymyn, collodd rhai dysgwyr farciau gwerthfawr lle na ddilynwyd berfau gorchymyn, gan arwain at ymatebion ar ffurf pwyntiau bwled.

Roedd gwybodaeth ymlaen llaw ar gael ar gyfer y papur hwn i gefnogi profiad dysgu cyfunol diweddar y dysgwyr. Dangoswyd bod defnydd da wedi'i wneud o'r wybodaeth hon gan lawer o ganolfannau. Roedd rhai ymatebion, yn enwedig yng nghwestiynau 4 a 5, wedi dangos i arholwyr nad oedd gwybodaeth ymlaen llaw glir yn seiliedig ar Ddeilliant 4.1 wedi'i defnyddio'n ddigonol wrth gyflwyno.

Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

Cw.1 (a) (DD1 1.2)

Roedd 4 marc ar gael yn y cwestiwn ticio blwch sylfaenol hwn. Er bod llawer o ddysgwyr wedi gallu rhoi rhai atebion cywir, roedd diffyg dealltwriaeth o agweddau datblygiad deallusol (gwybyddol) i'w weld, ac arweiniodd hyn at roi marciau cyfyngedig i rai dysgwyr.

(b) (DD1 1.4)

Y ferf orchymyn yma oedd Esboniwch, ac roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn gallu dilyn y ferf orchymyn hon i ryw raddau. Roedd llawer o ymatebion yn disgyn i'r band marcio da neu da iawn, lle roedd dysgwyr yn gallu esbonio'n glir drwy gyfeirio at y cwestiwn yn llawn gan gynnwys tystiolaeth o hunan-barch, annibyniaeth a sgiliau cymdeithasol mewn perthynas ag ymlyniad sicr.

© WJEC CBAC Ltd.

Cw.1 (c) (DD1 1.4)

Roedd 3 marc ar gael am nodi berf orchymyn. Roedd y rhan fwyaf wedi rhoi cynnig ar ymateb, ond nifer cyfyngedig a enillodd y 3 marc. Gwelwyd dealltwriaeth brin o Anhywlder Ymlyniad Adweithiol gan lawer, cyflwr penodol fel sydd wedi'i nodi yn y fanyleb ar gyfer y deilliant dysgu hwn.

Cw.2 (a) (DD1 1.5)

Rhoddwyd gwybodaeth ymlaen llaw ar gyfer y cwestiwn disgrifio hwn. Cynigwyd amrywiaeth o ymatebion gyda nifer lleiafrifol yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o chwarae cydweithredol i ennill y 3 marc llawn. Cafwyd rhai ymatebion dryslyd lle roedd dysgwyr wedi cyfeirio at chwarae cyfochrog ac nid oedd arholwyr yn gallu rhoi unrhyw farciau.

(b) (DD1 1.5)

Roedd rhai heb roi cynnig ar y cwestiwn hwn, doedd y dysgwr heb ddangos dealltwriaeth o'r cwestiwn blaenorol. Nodwyd amrywiaeth eang o weithgareddau addas gan y rhan fwyaf o weddill y ddysgwyr ac roedd y newidiadau i'r cynllun marcio yn caniatáu rhoi'r 1 marc a oedd ar gael ar gyfer y cynigion hyn.

(c) (DD2 2.1)

Roedd y cwestiwn 6-marc hwn yn rhoi'r cyfle i'r dysgwr ddatblygu trafodaeth. Roedd llawer o ddysgwyr yn gallu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda iawn o ofynion y cwestiwn wrth ddatblygu eu hymateb i gyrraedd bandiau marciau uwch. Roedd rhai ymatebion yn gyfyngedig ac yn canolbwyntio ar ryngweithio oedolion gyda'i gilydd yn gysylltiedig ag ymddygiad plant yn lle datblygiad cyfannol. Rhoddwyd marciau o'r bandiau isaf i'r ymatebion hyn.

Cw.3 (a) (DD2 2.2)

Rhoddwyd gwybodaeth ymlaen llaw ar gyfer y cwestiwn hwn ac roedd yn amlwg wedi'i defnyddio gan ganolfannau. Nodwyd 3 ffactor perthnasol i'w hystyried wrth gynllunio taith yn y rhan fwyaf o ymatebion. Gwnaed rhai ychwanegiadau i'r cynllun marcio a oedd yn caniatáu i ddysgwyr ennill marciau am ymatebion megis hyd/argaeledd gweithgareddau/anghenion meddygol.

(b) (DD2 2.2)

Cafwyd rhywfaint o farciau uchel ar gyfer y cwestiwn hwn gyda llawer o ddysgwyr yn cael y 3 marc llawn. Datblygwyd ymatebion yn unol â'r ferf orchymyn trafodwch.

Cw.4 (a) (DD4 4.1)

Roedd dealltwriaeth o atgyfeiriad trydydd parti wedi'i nodi'n glir yn y wybodaeth ymlaen llaw a ddarparwyd. Fodd bynnag, roedd llawer o ddysgwyr yn methu ag amlinellu ystyr y math hwn o atgyfeirio. Arweiniodd hyn at nifer yn peidio â rhoi cynnig arni a rhoddwyd 0 marciau i lawer i ymatebion. Rhoddwyd y 2 farc llawn i nifer cyfyngedig.

(b) (DD4 4.1)

Methodd meini prawf 4.1, oedd hefyd wedi'u nodi yn y wybodaeth ymlaen llaw, ag ennill marciau i lawer o ddysgwyr. Roedd sawl un heb roi cynnig arni, ac roedd rhai wedi ailadrodd yr enghraifft a roddwyd. Gallai hyn awgrymu bod dysgwyr, unwaith eto, ddim yn darllen y wybodaeth a chwestiynau'n ofalus.

© WJEC CBAC Ltd.

Cw.4 (c) (DD4 4.1)

Roedd rhai dysgwyr yn gallu datblygu trafodaeth dda iawn gan grybwyll sawl pwynt mewn perthynas â'r cwestiwn. Rhoddwyd marciau yn y bandiau uwch lle roedd dysgwyr wedi ehangu ar y dystiolaeth i drafod pwysigrwydd prydau iach neu ganolbwyntio'n well ar ôl cinio i gefnogi'r dysgu. Roedd rhai dysgwyr wedi canolbwyntio ar yr oedolion yn y senario a'r angen i beidio â phoeni am dalu am fwyd. Rhoddwyd rhywfaint o farciau isel i'r dysgwyr hyn lle gwnaed cyswllt â llesiant y plentyn.

Cw.5 (a) (DD4 4.1)

Roedd gwybodaeth ymlaen llaw yn cynghori canolfannau y dylai dysgwyr wybod a deall am y mathau o wasanaethau sydd ar gael i'w plant a'u teuluoedd/gofalwyr. Cymhwyswyd marcio cadarnhaol lle roedd dysgwyr wedi nodi'r meddyg teulu neu ymwelydd Iechyd fel gwasanaeth iechyd ond ni roddwyd marc i'r rhai a nododd y GIG. Roedd llawer o ddysgwyr wedi nodi'r banc bwyd dan sefydliadau gwirfoddol a thrydydd parti ac ychwanegwyd hyn at y cynllun marcio. Cafwyd rhywfaint o ddryswch rhwng gwasanaethau ac o ganlyniad dim ond 1 marc a roddwyd.

(b) (DD4 4.1)

Gofynnwyd i ddysgwyr ddisgrifio cefnogaeth a gynigir i deuluoedd wrth gael mynediad at hosbis. Roedd y ddealltwriaeth o wasanaeth hosbis yn gyfyngedig iawn gyda dim ond mwyafrif o ymatebion yn cael eu datblygu yn unol â'r band da. Dangoswyd dealltwriaeth sylfaenol gan rai dysgwyr a chytunodd arholwyr i roi marciau am gynnwys amgylchedd cyfforddus neu fwyd i gefnogi'r teulu. Roedd llawer o ddysgwyr wedi disgrifio cyfleusterau nad oedden nhw ag unrhyw gysylltiad â hosbis mewn unrhyw ffordd.

Cw.6 (DD4 4.2)

Cafodd y mwyafrif o ymgeiswyr farciau yn y band canol gyda naill ai 2 neu 3 marc yn cael eu rhoi. Roedd y wybodaeth yn y cwestiwn yn nodi aelodau eraill y tîm, megis athrawon a rhieni ond ychydig iawn o ddysgwyr a sylwodd ar hyn. Gallai hyn fod wedi cyfrannu at farciau yn y bandiau uchaf. Nid oedd nifer bach o ddysgwyr wedi deall rôl y seicolegydd addysg ac roedd rhai wedi gadael y cwestiwn yn wag.

Cw.7 (a) (DD2 2.3)

Cyflwynwyd dysgwyr â threfn ddyddiol fanwl babi 8 mis oed. Roedd y cwestiwn yn gofyn iddyn nhw ddadansoddi sut roedd y drefn yn cefnogi ac yn hybu'r babi. Collwyd marciau lle roedd dysgwyr wedi anwybyddu'r wybodaeth a roddwyd ac wedi cyflwyno ymateb cyffredinol yn seiliedig ar bwysigrwydd trefn. Rhoddwyd marciau am y math hwn o ateb fodd bynnag, dim ond y rhai a ddadansoddodd y cynnwys yn ôl y gofyn oedd wedi gallu ennill marciau yn y bandiau uchaf. Roedd rhai dysgwyr wedi gwneud hyn yn effeithiol ac wedi rhoi ymateb manwl a oedd yn symud ymlaen yn rhesymegol drwy brofiadau'r plentyn.

(b) (DD2 2.3)

Roedd 4 marc ar gael ar gyfer y cwestiwn hwn ac roedd newidiadau i'r cynllun marcio yn caniatáu i nifer o ddysgwyr ennill rhwng 3 a 4 marc. Collwyd marciau gan rai dysgwyr lle roedd yr awgrymiadau yn amlwg yn anaddas ar gyfer babi 8 mis oed. Eto, gallai hyn fod o ganlyniad i ddysgwyr ddim yn darllen y wybodaeth yn y cwestiwn yn ofalus.

© WJEC CBAC Ltd.

Cw.8 (a) (DD3 3.1)

Rhoddwyd gwybodaeth ymlaen llaw am adran olaf y papur a oedd yn ymwneud â deilliant dysgu 3. Fodd bynnag, fel mewn cyflwyniadau blaenorol, mae deddfwriaeth yn parhau i fod yn broblem i ganolfannau. Unwaith eto mae ymatebion yn awgrymu nad yw dysgwyr yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd. Roedd yr ymatebion yn amwys mewn llawer o bapurau lle archwiliwyd yr egwyddor llesiant mewn modd cyffredinol gyda chysylltiad prin, neu ddim o gwbl, â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Roedd nifer mawr o ddysgwyr heb roi cynnig ar y cwestiwn a dim ond rhai i'r rhai a ymatebodd a lwyddodd i ennill marciau am archwiliad da neu da iawn.

(b) (DD3 3.1)

Cwestiwn 3-marc a oedd yn cyfeirio at leoliad Dechrau'n Deg. Rhoddwyd amrywiaeth o farciau gyda rhai dysgwyr yn nodi ffactorau'n glir mewn perthynas â'r math hwn o leoliad. Roedd yn syndod i arholwyr gweld rhywfaint o ddealltwriaeth gyfyngedig iawn o leoliad dechrau'n deg gan fod y ddarpariaeth hon wedi'i chynnwys yn glir yn y fanyleb ac mae'n amlwg iawn yng Nghymru.

(c) (DD3 3.1)

Cyflwynwyd rhai amlinelliadau datblygedig yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r polisi gwrth-fwlio. Roedd y rhan fwyaf o ymatebion yn ystyried llesiant plant i raddau amrywiol er i rai dysgwyr golli marciau lle roedd y ffocws ar drin pawb yr un fath.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

Argymhellion i ganolfannau.

Yn seiliedig ar berfformiad ymgeiswyr ar y papur hwn, cynigir y cyngor canlynol i ganolfannau ar gyfer y dyfodol:

- Unwaith eto caiff canolfannau eu hatgoffa o bwysigrwydd gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cyflwyniadau i gwestiynau. Dylid annog dysgwyr i ddarllen y wybodaeth a'r cwestiynau'n ofalus gan roi sylw i eiriau allweddol. Mae'r wybodaeth hon yno i gefnogi dysgwyr.
- Caiff ymgeiswyr eu hatgoffa o bwysigrwydd berfau gorchymyn. Mae rhai dysgwyr yn dal i golli marciau gwerthfawr lle mae pwyntiau bwled yn cael eu defnyddio yn lle disgrifiad neu drafodaeth.
- Mae bylchau mewn gwybodaeth wedi'u nodi uchod. Cynghorir canolfannau i ddefnyddio cyn-bapurau yn rhan o adolygu arholiadau. Bydd hyn yn cefnogi dealltwriaeth dysgwyr o'r mathau o gwestiynau a'r cynnwys sy'n debygol o gael eu cynnwys.
- Dylid atgoffa dysgwyr, lle mae cwestiwn yn cynnig un marc am bob ateb a nodir e.e., cwestiwn 4(b) neu 8(b), os rhoddir mwy nag 1 ymateb ar bob llinell, dim ond yr ymateb cyntaf fydd yn cael ei ystyried gan yr arholwr. Golyga hyn y bydd unrhyw ail gynnig ar yr un linell, hyd yn oed os yw'n gywir, yn cael ei anwybyddu.
- Dylid atgoffa dysgwyr sy'n defnyddio taflenni parhad y dylid cyfeirio at y rhain yn glir.
- Mae deddfwriaeth allweddol a/neu fentrau presennol y llywodraeth yn parhau i achosi problem i lawer o ddysgwyr. Gellid ystyried hyn yn ystod adolygiad arholiad lle gall dysgwyr fanteisio o gysylltu deddfwriaeth ag ymarfer.
- Mae CBAC yn cynnig cyfle i ganolfannau gwblhau'r arholiad gan ddefnyddio asesu ar-lein, a allai fod o fudd i rai ymgeiswyr. Cysylltwch ag e-asesu@cbac.co.uk i gael rhagor o wybodaeth am dreialu'r arholiad ar-lein.

© WJEC CBAC Ltd.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.